**CYNGOR SIR CAERDYDD**
**ATODLEN TALIADAU**
**MEWN PERTHYNAS Â RHANNU PENSIWN AR ÔL YSGARU**

O dan ddarpariaethau Rheoliadau Pensiynau ar ôl Ysgaru ayyb. (Codi Tâl) 2000, mae Cyngor Sir Caerdydd yn rhoi gwybod y bydd yn codi'r taliadau canlynol mewn perthynas â darparu gwybodaeth a/neu weithredu Gorchymyn neu ddarpariaeth ar gyfer Rhannu Pensiynau

**Sylwer y bydd pob taliad yn denu TAW.**

## A. Aelod o'r Cynllun sydd Heb Ymddeol Eto

| Gweithdrefn | Sylwadau | Cost |
|---|---|---|
| 1. Llunio dyfynbris GTGAP llawn (nid yw'r aelod na'r Llys yn pennu dyddiad cau ar gyfer ei lunio)<br>2. Llunio dyfynbris GTGAP llawn (mae ei angen ar yr aelod neu'r Llys o fewn tri mis) | 1. Hawl flynyddol safonol o dan PSA 1993 (i'w darparu o fewn tri mis i'r dyddiad perthnasol)<br>2. GTGAP safonol o dan PSA 1993 (i'w ddarparu erbyn y dyddiad cau y gofynnwyd amdano) | £0<br><br>£100* |
| Dyfynbrisiau GTGAP Ychwanegol<br>• yn seiliedig ar yr un dyddiadau<br>• yn seiliedig ar ddyddiadau gwahanol | | £50* y dyfynbris<br>£100* y dyfynbris |
| Darparu gwybodaeth arall | Os yw o dan reoliadau datgelu gwybodaeth<br>Fel arall, mae'n dibynnu ar natur y cais | £0<br><br>Uchafswm o £100* |
| Derbyn Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Gydsynio ac mae'r aelod a gredydir o dan 65 oed | I dalu'r holl gostau gweinyddu o dderbyn y Gorchymyn Rhannu Pensiwn i gwblhau taliadau pensiwn | £600 |
| Sefydlu cofnod pensiynwr newydd lle y mae'r aelod a gredydir dros 65 oed | I dalu'r holl gostau gweinyddu o dderbyn y Gorchymyn Rhannu Pensiwn i gwblhau taliadau pensiwn | £600 |
| Gan gymryd bod yr holl ddogfen ar waith, penderfynu ar werth trosglwyddo | Mae hyn ond yn berthnasol os bydd yr aelod a gredydir yn gofyn am drosglwyddo o'r cychwyn cyntaf. Fel arall bydd y taliadau uchod yn gymwys ac ni chodir unrhyw dâl ychwanegol dilynol os gofynnir am drosglwyddo yn ddiweddarach | £300 |
| Gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn Rhannu Pensiwn gan Gyngor Sir Caerdydd | Dylai'r baich fod ar yr un a ddrafftiodd y Gorchymyn er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu gan Gyngor Sir Caerdydd | Caiff pob cost sy'n codi ei phasio ymlaen |

## B. Aelod o'r Cynllun wedi Ymddeol – Pensiwn yn Cael ei Dalu

| Gweithdrefn | Sylwadau | Cost |
|---|---|---|
| Asesu gwerth y pensiwn a delir gan gynnwys unrhyw fuddion amodol | | £300* |
| Derbyn Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Gydsynio lle y mae'r aelod a gredydir o dan 65 oed | I dalu'r holl gostau gweinyddu o dderbyn y Gorchymyn Rhannu Pensiwn i gwblhau taliadau pensiwn | £600 |
| Sefydlu cofnod pensiynwr newydd lle y mae'r aelod a gredydir dros 65 oed | I dalu'r holl gostau gweinyddu o dderbyn y Gorchymyn Rhannu Pensiwn i gwblhau taliadau pensiwn | £600 |
| Gan gymryd bod yr holl ddogfen ar waith, penderfynu ar werth trosglwyddo | Mae hyn ond yn berthnasol os bydd yr aelod a gredydir yn gofyn am drosglwyddo o'r cychwyn cyntaf. Fel arall bydd y taliadau uchod yn gymwys ac ni chodir unrhyw dâl ychwanegol dilynol os gofynnir am drosglwyddo yn ddiweddarach | £300 |

Nodiadau:

1. Ni fydd cyfanswm y costau a godir ar gyfer yr holl wybodaeth yn fwy na £1000 ynghyd â TAW heblaw am y rhai yr ymwneir â nhw yn y nodiadau canlynol.
2. Unrhyw gostau ychwanegol sy'n codi os bydd yn arbenigol, yn actiwaraidd, yn gyfreithiol, ayyb. Codir tâl llawn am gyngor sy'n ofynnol, yn ogystal â'r taliadau a restrir uchod.
3. Pan fydd gan aelod o'r cynllun gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol o dan y CPLlL, mae'n bosibl y bydd darparwr yr AVC yn codi am ddarparu gwybodaeth. Codir tâl llawn am unrhyw daliadau, yn ogystal â'r taliadau a restrir uchod.
4. Caiff unrhyw gostau gweinyddol rhesymol yr eir iddynt neu y mae'n debygol yr eir iddynt wrth gydymffurfio â "gorchymyn clustnodi" eu codi ar yr aelod sy'n bensiynwr.
5. Bydd unrhyw gostau yr eir iddynt mewn perthynas â "gorchymyn rhannu pensiwn" sy'n cael ei wneud yn destun cais am ganiatâd i apelio y tu allan i'r amser yn cael eu hadfer gan Gyngor Sir Caerdydd.
6. Mae pob tâl yn gywir ar ddyddiad llunio'r atodlen codi tâl hon (Mai 2008). Mae Cyngor Sir Caerdydd yn cadw'r hawl i adolygu ei daliadau o bryd i'w gilydd.
7. Arfer safonol Cyngor Sir Caerdydd yw bod rhaid i swm cyfan y taliadau sydd wedi'u marcio â "*" gael ei dalu, gan y naill parti i'r ysgariad neu'r llall, cyn yr ymgymerir â'r camau gweithredu perthnasol. Gall pob tâl arall gael ei dalu
   (a) yn llawn ar y pwynt gweithredu, gan y naill parti i'r ysgariad neu'r llall, neu
   (b) drwy daliad rhannol ar y pwynt gweithredu, gan y naill parti i'r ysgariad neu'r llall, a chaiff y gweddill ei ddidynnu naill ai o'r gwerth arian parod a roddir i'r aelod a gredydir o dan y gorchymyn rhannu cyn iddo gael ei drawsnewid yn bensiwn blynyddol o dan y CPLlL neu, os bydd yr aelod credyd yn dymuno trosglwyddo'r credyd pensiwn yn uniongyrchol i drefniant arall, o'r gwerth trosglwyddo sy'n daladwy, neu
   (c) drwy ddidynnu yn llawn o naill ai'r gwerth arian parod a roddwyd i'r aelod a gredydir o dan y gorchymyn rhannu cyn iddo gael ei drawsnewid yn bensiwn blynyddol o dan y CPLlL neu, os bydd yr aelod credyd yn dymuno trosglwyddo'r credyd pensiwn yn uniongyrchol i drefniant arall, o'r gwerth trosglwyddo sy'n daladwy, neu
   (d) drwy ei ddidynnu'n llawn o unrhyw ran o gronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol aelod o'r cynllun a roddir i'r aelod a gredydir o dan y gorchymyn rhannu. Fodd bynnag, bydd Cyngor Sir Caerdydd yn cydymffurfio â'r gofynion codi tâl a nodir mewn unrhyw orchymyn neu gytundeb.